ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 1 Cyfrol 10 Ionawr 2013

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

ORDEINIWYD SAITH

Yn Henaduriaeth Arfon ar y 23ain o Hydref ordeiniodd Y Parch Brian Huw Jones, Llywydd y Sasiwn, saith o flaenoriaid newydd… rhes gefn o'r chwith: Y Parch Brian Huw Jones, Aled Harri Jones, Gareth Emlyn Jones, Alwyn Ellis. Blaen: Delyth Oswy Shaw, Elin Walker Jones, Gwenno Pritchard, Menna Baines.

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Ionawr 6	Gweinidog
13	Parch. Harri Parri
20	Gweinidog
27	Glyn Owen MBE
Chwefror 3	Gweinidog
10	Parch. W.R.Williams
17	Gweinidog
24	Parch. Hugh Pritchard
Mawrth 3	Gweinidog
10	Parch. Emlyn Richards
17	Gweinidog
24	Parch. William Davies
Pasg 31	Parch. Megan Williams
Ebrill 7	Gweinidog
14	Parch. Meirion Ll. Davies
21	Gweinidog
28	Parch. Glyn Tudwal Jones

DYLETSWYDDAU

	Llywydd y Pythefnos
Ionawr 6	Robat Roberts
	Cymun Bore
13+20	Gwyn Jones
27	Menna Baines
Chwefror 3	Menna Baines
	Cymun Hwyr
10+17	Wyn Griffiths
24	Geraint Hughes
Mawrth 3	Geraint Hughes
	Cymun Bore
	Llywydd y Pythefnos
Mawrth 10	Gwenno Pritchard
17	Gwenno Pritchard
24	Gareth Emlyn Jones
Pasg 31	Gareth Emlyn Jones
Ebrill 7	Elizabeth E. Roberts
	Cymun Hwyr
14	Elizabeth E Roberts
21+28	Alwyn Lloyd-Ellis

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Ionawr 27	Ann Corkett
Chwefror 3	Gwenno Pritchard
Chwefror 10	Meira Jones
Chwefror 17	Astra Thomas
Chwefror 24	Manon Davies
Mawrth 3	Elizabeth Evans
Mawrth 10	Beryl Stafford Williams
Mawrth 17	Eleri W. Jones
Mawrth 24	Betty Thomas
Mawrth 31	Val P. Jones
Ebrill 7	C. Frazer Jones
Ebrill 14	Laura Lewis
Ebrill 21	A. Roberts Cil-y-Bont
Ebrill 28	Menna Baines

Byddai'r Gofalwyr yn falch o dderbyn y blodau ar ddydd Gwener os yn bosibl, neu cysyllter â hwy ar 364094 i wneud trefniadau gwahanol.

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Gobeithio nad yw'n rhy hwyr i ddymuno blwyddyn newydd ddedwydd i bawb ohonoch. Wrth eich cyfarch fel hyn, sylweddolaf fod amgylchiadau pob un ohonoch yn amrywio'n fawr. Fel aelodau o'r Eglwys Gristnogol boed i ni brofi agosrwydd ein Harglwydd, a boed i'w dangnefedd lenwi ein calonnau. Yn ei law Ef y mae ein hamserau.

Wrth sôn am amser, rhyfeddwn fod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i ni ffurfio'r eglwys newydd unedig hon. Gwelsom newidiadau mawr, ond hyderaf ein bod wedi ymdrechu i ddiogelu'r hanfodion sy'n ddigyfnewid, sef ein galwad i addoli Duw, cenhadu, a gwasanaethu cyd-ddyn. Cawn gyfle i ddathlu ein pen-blwydd rywbryd eleni. Sut y buasech chi'n hoffi i ni wneud hynny?

Erbyn hyn ordeiniwyd saith o flaenoriaid newydd, gan obeithio y gall un neu ddau arall weld eu ffordd yn glir i sefyll o fewn blwyddyn. Bu i ni gyrraedd ein nod gydag Apêl Guatemala. Dyma ganlyniad i'n gwaith a'n gweddi. Diolch i Dduw.

Llawenhawn fod yna enedigaethau hefyd, megis Niclas Wyn, mab bach Geraint Roberts a Claudia Schroder, ac Alexander Isaac mab bach Emma Harris ac Edward Cambell. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

Llawenhawn fod Delyth Wyn Davies wedi ei phenodi i olynu Aled Ifan erbyn hyn. Boed i bawb ohonom wneud ein gorau glas i ddangos ein cefnogaeth iddi, gan ddyfnhau ein diddordeb a dyblu ein hymdrechion gyda'n plant a'n hieuenctid. Dyna hyfryd oedd gweld y fath gefnogaeth a gafodd y Gwasanaeth Drama Nadolig. Cofiwn fod angen yr un gefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Ers y rhifyn diwethaf o Ichthus bu i ni golli pedwar o aelodau, sef Mrs Jean Meirwen Jones, Glan Menai gynt, Mrs Lena Richards, Eithinog gynt, Dr Gwyn Davies Llys Menai a Miss Elen Williams o Bentir gynt. Collais innau f'annwyl fam, a diolch a wnaf yn ddiffuant iawn i bawb ohonoch a ddangosodd eich cydymdeimlad. Gwerthfawrogais hynny'n fawr.

Clywais ganmoliaeth mawr i'r Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd pryd y cynhaliwyd dwy oedfa weddi wir fendithiol. Pa ffordd well i ddechrau ein hail ddegawd fel eglwys? Gwerthfawrogais innau'r ychydig seibiant, diolch amdano.

Cofion caredig atoch oll,
Eric Jones

ADEILADU'R CAPEL NEWYDD 10 MLYNEDD YN ÔL, A CHYN HYNNY

JOHN WYNN JONES

Gan ei bod yn ddeng mlynedd ers i'r achos newydd hwn gael ei sefydlu ar y safle presennol mae yna deimlad wedi bod gan y swyddogion y dylem gofnodi'r cychwyn fel nad aiff yn angof. Ond sut i wneud hynny ydi'r cur pen. Gofynnwyd i ambell un a hoffai wneud y gwaith ond methu â gweld y ffordd yn glir y mae pobol!

Mae hanes sut y daeth y symud cartref yn eithaf diddorol ac mi geisiaf fel un o flaenoriaid yr hen Berea roi braslun o beth ddigwyddodd. Mi oedd yr hen Berea wedi ei leoli ar Ffordd Caernarfon o gwmpas lle mae'r gylchfan i fynd i safle siopa Dewi Sant ar hyn o bryd. Mi oedd Berea yn adeilad sylweddol gyda galeri, festri a allai lwyfannu dramâu a hefyd sawl ystafell atodol. Tu ôl i'r Capel oedd Ysbyty Dewi Sant lle gwelodd y rhan fwyaf ohonom o'r ardal yma olau dydd am y tro cyntaf. Wedi cau'r ysbyty a symud yr adran famolaeth i Ysbyty Gwynedd fe lwyddwyd ymhen amser, i werthu'r safle i ddatblygwyr o'r enw Morbaine i wneud canolfan siopa a hefyd datblygiad tai.

Problem y datblygwr oedd bod yr hen Berea yn digwydd bod yn cuddio'r ganolfan siopa. Felly daethant i drafod efo'r Blaenoriaid a oedd modd prynu llain o dir oedd o flaen y capel fel y buasent yn gallu cael gwell mynediad i'r safle. Gan fod gan Arfon Evans gysylltiadau â chwmni Morbaine nid oedd yn briodol iddo fod yn rhan o'r trafodaethau. Felly fe gafwyd tîm o dri sef y Gweinidog Y Parch Eric Jones, Dr Iorwerth Morris a minnau i geisio gweld y ffordd ymlaen. Wedi llawer o ohebu gyda'r datblygwr fe ddaeth yn amlwg nad oedd y llain tir yn ddigon ac fe gynigwyd prynu'r festri ac wedyn daethant atom a dweud eu bod am brynu'r safle i gyd am £250,000

Bu llawer o drafod yn yr amser hwn gan gynnwys uno yn adeilad y Wesleaid Capel Moriah ar draws y ffordd sydd bellach yn siop trin gwallt TH1. Cynigiwyd codi capel bach y tu ôl i'r fflatiau sydd i'r dde o'r cylchdro wrth fynd am y siopau presennol. Cynigiwyd addasu hen gartref nyrsys ysbyty Dewi Sant. Cawsom gyngor gan arbenigwr o gwmni Chestertons Caerdydd i dderbyn yr arian am yr hen gapel, a chwilio am safle arall i godi un newydd gyda'r arian. Ond roeddem ni'n tri yn meddwl am ddyfodol Presbyteriaeth ym Mangor, ac yn argyhoeddedig bod angen capel newydd sbon mewn lle canolog. Felly mentro gwrthod cynnig y

datblygwyr a wnaethom, a mynnu cael capel iawn yn lle'r hen un, a'i gael yn y safle presennol, sydd hanner ffordd rhwng hen gapel Y Twrgwyn, Bangor Uchaf, a'r Graig, Penrhosgarnedd.

Buom ein tri mewn llawer i gyfarfod wedyn yn ceisio cael adeilad gwerth chweil gydag adnoddau modern ac fe fu trafod di-ben-draw ar faint y stafelloedd, maint y gegin, nifer o lefydd parcio ac yn y blaen. Mae'n rhaid dweud bod Morbaine y datblygwr wedi bod yn awyddus o'r dechrau i godi adeilad safonol ar ein cyfer er nad oeddent wedi codi capel o'r blaen. Buom yn gweld y capel cymharol newydd yn Wrecsam, gan ymgynghori'n helaeth gyda hwy yno, a dysgu llawer.

Daeth cyfnod yr adeiladu, a gwir dweud bod ein Gweinidog yn ystod yr amser yma yn fwy o Glerc o Works na dim arall. Bu yn ddraenen barhaus yn ystlys yr adeiladydd ond cafodd gefnogaeth y Clerc o Works go iawn, oedd yn digwydd bod yr un mor daer ag yntau am gywirdeb y gwaith. Gwelwyd llawer o bethau urddasol yn yr adeilad fel y cerfluniadau croes ac ichthus wrth ben bob drws, a'r ffenestri lliw hardd.

Erbyn i'r pum eglwys ddod at ei gilydd teimlem ein bod yn gallu eu croesawu i gapel amlbwrpas, hwylus a diddos, a oedd yn werth dros £700,000 pan yr adeiladwyd o, heb gyfrif gwerth y safle.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

CIC BANG

DELYTH WYN DAVIES

CIC Bang – ystyr CIC yw Clwb Ieuenctid Cristnogol ac mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ardal Bangor ddod at ei gilydd i ymlacio a chymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau mewn awyrgylch Gristnogol. Mae CIC Bang sy'n cyfarfod ym Merea Newydd bob nos Fercher am 7 o'r gloch yn cael ei redeg yn gydenwadol gyda chefnogaeth eglwysi Cymraeg Bangor. Yn ystod y tymor diwethaf cawsom nosweithiau o gemau gwirion, siaradwyr gwadd ac ambell i her i'r bobl ifanc.

Ymhlith ein siaradwyr gwadd y tymor diwethaf oedd Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol, Huw John Hughes yn sôn am greaduriaid Duw, Lowri Ann Jones yn adrodd hanes Duw yn ei harwain i fyd nyrsio a Menna Machreth yn ein herio i feddwl am ystyr y Nadolig. Un o'r heriau a gafwyd y tymor hwn oedd sioe ffasiwn arbennig pan ofynnwyd i dimau greu gwisg ar gyfer 'premiere' ffilm James Bond allan o bapur newydd – gweler Rhun yn modelu'r wisg fuddugol!

Daeth y tymor i ben gyda noson allan yn Yr Hwylfan, Caernarfon, pan ddaeth 44 o bobl ifanc o ardaloedd Bangor a Llanberis at ei gilydd i brofi nad oes neb yn rhy hen i chwarae ar y sleidiau yno! Braf oedd cael croesawu pobl ifanc oedd yn newydd i CIC ynghyd â chyn-aelodau o CIC Bang sydd bellach yn y coleg yn ôl atom. Braf hefyd oedd croesawu ein siaradwraig wadd, Anest Evans o'r Ffôr, sydd ar ei blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Soniodd Anest am ei thaith i'r India gyda TearFund a rhannu ystyr y Nadolig iddi hi fel Cristion ifanc. Diolch i bawb a gefnogodd y noson a gobeithio y cawn gyfle i drefnu digwyddiad arall ar y cyd y fuan.

Croeso cynnes felly i bobl ifanc oed uwchradd i ymuno â ni yn CIC Bang ym Merea newydd bob nos Fercher am 7 tan 8.30.

CIC BACH

Cynhelir CIC Bach i blant oed cynradd ym Merea Newydd bob nos Fawrth am 6 tan 7 o'r gloch. Dyma gyfle gwych i blant gael hwyl wrth ddysgu am Iesu trwy lygaid Sam Styfnig. Dewch â'ch ffrindiau efo chi.

Mae angen cymorth gwirfoddolwyr i gynnal CIC Bach felly cysylltwch â Delyth ar delyth@gofalaethbangor.org i roi eich enw ar y rota. Diolch!

GWEFAN NEWYDD

Cofiwch droi at www.henaduriaetharfon.org

CYTÛN BANGOR

SARAH JACKSON

Casgliad o eglwysi yw Eglwysi Bangor Ynghyd - Cytûn Bangor. Eglwysi mawr, bach, traddodiadol a modern, Cymraeg, Saesneg a dwyieithog. Byddwn yn cyfarfod yn y Gadeirlan, eglwysi, capeli, canolfannau cymunedol, neuaddau ysgol a chartrefi pobl. Rydym yn cydweithio i ddangos ein cariad at Dduw, a chariad Duw at Fangor.

Mae gan bob eglwys 1 neu 2 gynrychiolydd ac arweinydd eglwys ar bwyllgor Cytûn. Mae'r pwyllgor yn trefnu cylch rheolaidd o weithgareddau, fel yr Orymdaith Dystiolaeth Dydd Gwener y Groglith, y gwasanaeth gwawr Sul y Pasg yn y Gwersyll Rhufeinig, Mawl ar y Pier, a Chanu Carolau yng nghanol y ddinas. Mae'r casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol ym Mangor yn cael ei drefnu drwy Gytûn. Mae Cytûn hefyd yn gwasanaethu pobl Bangor drwy redeg y Babell De yng Ngharnifal Bangor. Roedd Picnic a Mawl y Pentecost yn fenter newydd lwyddiannus ar gyfer 2012.

Mae nifer o ddigwyddiadau cyffrous yn barod yn cael eu cynllunio ar gyfer 2013. Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 21ain - 25ain Ionawr, bydd yr eglwysi yn gweithio gyda'i gilydd mewn parau i baratoi'r sesiynau dyddiol. 'Beth y mae Duw yn ei geisio gennym?' ydy'r thema. Bydd y gwasanaeth agoriadol am 7.30pm ar 21ain Ionawr ym Mhenrallt.

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn yn agored i bawb. Mae eglwysi Bangor yn ffodus iawn o gael y Parchedig Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, yn siaradwr gwadd eleni. Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7 o'r gloch ddydd Mercher 6ed Chwefror yng Nghapel Berea Newydd. Dewch i glywed Bob Fyffe yn siarad.
"Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych" meddai Iesu.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cytûn

NOS FERCHER, 6 CHWEFROR 2013 AM 7 O'R GLOCH, YNG NGHAPEL BEREA NEWYDD

Cadarnhawn gymaint o fraint fydd cael y Parch Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwysi gyda'i Gilydd ym Mhrydain ac Iwerddon, yn annerch yn y CCB.

Y pwnc fydd "Beth yw diben eciwmeniaeth?" "What's the point of ecumenism?" ac fe'i thraddodir yn Saesneg.

Rydym yn awyddus iawn i holl bobl ifanc eglwysi Bangor fod yn bresennol.

Y DOETHUR DAFYDD WYNN PARRY

GAN ALUN O FÔN

Athrylith, yn wir athro - a fuoch
Heb falchder, na chyffro
Yn ddidwyll,wnawn drosglwyddo,
Ein diolch i chwi bô.

Bydd sgwrs Maldwyn Thomas gyda Dyfan a Kathy Sion, Coed y Maes, yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o *Ichthus*.

CYLCH Y CHWIORYDD

ELIZABETH EVANS

Cynhaliwyd cyfarfod o Gylch y Chwiorydd ar y 7fed o Dachwedd gyda Liz Roberts yn llywyddu. Croesawyd yr aelodau a'r siaradwyr - "John" o Gemaes, a'r Parch Elwyn Jones, aelodau o'r Samariaid.

Cyd-ddarllennwyd y datganiad. Gwenno Pritchard gymerodd y defosiwn. Cafodd Gwenno ei llongyfarch ar gael ei hordeinio yn flaenor.
Gwnaed apêl am ragor o chwiorydd i gynorthwyo gyda pharatoi'r cymun a golchi'r llestri ar ddiwedd y gwasanaeth.

Cawsom sgwrs addysgiadol gan "John" am waith y Samariaid. Fe'n hatgoffwyd mae Chad Varah gychwynodd y Mudiad yn 1953. 'Roedd yn gurad yn Eglwys St. Paul, Llundain, ac yn poeni am y nifer o hunan-laddiadau oedd yn digwydd ar y pryd. Sylweddolodd fod pobl angen rhywun i wrando ar eu problemau a'u gofidiau. Mae'n debyg mae un o'r papurau newydd dyddiol roddodd yr enw 'Samariaid' i'r mudiad.

Erbyn hyn mae 200 o ganolfannau yn y Deyrnas Unedig, y rhain yn gweithredu bob awr o'r dydd a'r nos. Mae 70 o wirfoddolwyr yn gweithio dros ardal Môn, Gwynedd a Chonwy, a disgwylir i bob un i weithio am 4 awr yr wythnos a 'shifft' nos unwaith y mis. Mae pob un wedi cael hyffordiant, a hanfod y gwasanaeth yw gwrando ar y person sydd yn gwneud yr alwad ffôn a rhoi digon o amser i'r person hwnnw. Ni fydd y Samariaiad yn cynghori na cheryddu, na dangos rhagfarn, ond rhoi sylw dyledus i bob galwad. Mae popeth yn gyfrinachol.

Y dyddiau yma, mae'r rhan fwyaf o'r galwyr yn wŷr ifanc rhwng 15 a 30 mlwydd oed a'u prif broblemau yw digalondid, iselder ysbryd ac unigrwydd; efallai yn gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd.

Mae gwaith y Samariaid yn ddi-dâl ond mae angen arian i gynnal y canolfannau a thalu biliau ffôn. Maent yn derbyn ychydig o gymorth ariannol gan rai Cynghorau, ond yn dibynnu fwyaf ar arian a godir gan y cyhoedd, e.e. trwy Gyfeillion y Samariaid. Bu'r Parch Elwyn Jones yn cynorthwyo i ateb cwestiynau a godwyd gan y chwiorydd. Jane Ellis, Kathleen Lewis a Margaret Thomas oedd yn gofalu am y baned.

SAMARITANS

CRONFA VIVA GUATEMALA

CYNTHIA OWEN

MAE'N HYFYD CAEL CYHOEDDI AR DDECHRAU 2013 EIN BOD WEDI CYRRAEDD EIN TARGED WRTH GASGLU AT GRONFA GUATEMALA!

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gwneud casgliad pob 5 mlynedd at waith Cymorth Cristnogol mewn rhannau arbennig o'r byd. Ar gyfer 2012 yr her oedd casglu at wlad dlawd Guatemala. Gosodwyd nod o godi £12 ar gyfer pob aelod felly ar ein cyfer yma ym Merea Newydd y nod oedd casglu £4,200.

Gan ein bod eisoes yn casglu at Eisteddfod yr Urdd ar ddechrau 2012 fe adawyd y gwaith caled o gasglu at Guatemala tan wedi'r Eisteddfod felly roedd y cyfan yn digwydd o Fehefin ymlaen.

Cafwyd nifer o ymdrechion llwyddiannus i chwyddo'r coffrau.

Daeth £400 i law wedi'r bore 'Mefus a Brownies' yn ystod yr haf a dros £1,000 o'r daith gerdded noddedig. Daeth bron i £300 o ymdrech y plant gyda'r bunt a gawsant.

Yna cafwyd £400 arall yn dilyn y cyngerdd p'nawn Sul ar ddechrau Rhagfyr. Rhoddwyd symiau sylweddol hefyd gan unigolion yn yr eglwys ac arian er cof am rai a fu farw.

Gyda chymorth y casgliad Dorcas ar hyd y flwyddyn (bron £700) a chasgliad yn ystod y Sul cyn y Nadolig o £250 roeddem bron â chyrraedd ein nod.

Roedd y cyfanswm terfynol ar ddiwedd 2012 wedi cyrraedd £4,105.75. Gan bod nifer o gyfraniadau wedi eu gwneud trwy Rhodd Gymorth fe ddaw tua £125 ychwanegol i chwyddo'r swm terfynol felly mae'n ddiogel i ddeud i ni gyrraedd ein nod o gasglu £4,200!

Diolch yn fawr i bawb am eu holl ymdrechion ar hyd y flwyddyn ac mae'n braf gweld y thermomedr yng nghyntedd y capel wedi cyrraedd y nod.

Y NADOLIG NESA...?

Diolch o galon i Dei a Liz Roberts am addurno'r capel tros gyfnod y Nadolig ers 10 mlynedd, gwaith a werthfawrogir yn fawr gennym ni a'r holl ymwelwyr. Bellach maent yn dymuno ymddeol, felly a oes rhywun am wirfoddoli i gyflawni'r dasg hon y Nadolig nesa?

Y GYMDEITHAS - MIS TACHWEDD

GARETH TILSLEY



Roedd ein siaradwr yn y Gymdeithas nos Iau 8 Tachwedd yn adnabyddus i'r rhan fwyaf ohonom gan ei fod i'w weld a'i glywed yn aml ar y cyfryngau yn sôn am faterion gwyddonol. Ar ôl gyrfa ddisglair ym Mhrifysgol Caergrawnt daeth Dr Deri Thomas i Fangor yn ddarlithydd ifanc yn adran y gwyddorau biolegol yn 1977, a bellach adwaenir ef fel yr Athro Deri Thomas gan fod ganddo gadair bersonol yn yr adran honno.

Ei ddewis bwnc oedd 'A oes Bywyd yn y Bydysawd', a chawsom ddarlith gynhwysfawr ganddo ar wahanol agweddau o'r cwestiwn mawr yma. Bu'n rhoi diffiniadau i ni o beth yw bywyd, ac eglurodd fod ei hoff ddiffiniad ef yn cynnwys esblygiad fel rhan annatod o ddisgrifiad o bopeth byw. Dyma'r ddamcaniaeth a gysylltir yn agos iawn â Charles Darwin, ac a dderbynnir yn gyffredinol, ond tynnodd Deri ein sylw at y ffaith bod nifer fawr o bobl o bob rhan o'r byd yn dal i wrthod derbyn hyn heddiw. Bu'n sôn hefyd am yr arbrofion, llwyddiannus i ryw raddau, sydd yn digwydd i greu bywyd, ar ei agwedd symlaf wrth gwrs, yn y labordy y dyddiau yma.

Aeth Deri â ni ymhell iawn o'r ddaear hon gan sôn am fawredd y bydysawd ac am rai o'r damcaniaethau diweddaraf am ei dechreuad a hefyd am ei difodiant maes o law - ymhen amser sydd ymhell tu hwnt i'n hamgyffred ni. Fe roddodd restr o lyfrau astrus i ni edrych arnynt, pe bai rhai ohonom am gael gwell dealltwriaeth o rai o'i sylwadau. Ond dylid eich rhybuddio nad llyfrau hawdd eu darllen yw'r rhain!

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ EI ADAEL MEWN AMLEN YN BEREA NEWYDD
➽ EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY
➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*
I GYRRAEDD ERBYN Y 1af O EBRILL OS GWELWCH YN DDA

BETH A WNELO TRETH Â BWYD?

ANNA JANE EVANS

Mae'r byd yn cynhyrchu digon o fwyd ar gyfer pawb ond mae o leiaf 870 miliwn o bobl yn mynd i'r gwely'n llwglyd bob nos.
Eleni bydd yr G8 yn cyfarfod yn Enniskillen ac mae mudiadau'n dod ynghyd mewn ymgyrch fawr i roi materion tlodi a newyn ar frig yr agenda ryngwladol. Cred Cymorth Cristnogol fod treth yn rhan hanfodol o'r ateb i'r broblem gan mai trwy drethi mae llywodraethau'n talu am wasanaethau i sicrhau fod pobl yn byw bywydau iach a chynhyrchiol. Mae treth yn ffynhonnell fwy dibynadwy gan fod arian cymorth yn cael ei glymu gan bolisiau ac amodau gwledydd eraill.

Gall treth ariannu cefnogaeth i ffermwyr. Mewn gwledydd sy'n datblygu mae mwy na 70% o'r bobl yn byw yn yr ardal wledig ac yn dibynnu ar amaethyddiaeth i wneud bywoliaeth.
Treth sy'n ariannu addysg ac iechyd. Mae pobl iach, addysgiedig yn gallu mynd allan i weithio ac ennill digon o arian ar gyfer eu teuluoedd. Treth sy'n talu am yr isadeiledd fel ffyrdd, pontydd a rheilffyrdd sydd eu hangen ar gwmnïau i greu gwaith ac incwm i deuluoedd. Mewn gwledydd sy'n datblygu gallai arian treth ariannu sustemau sy'n atal newyn a diffyg maeth – trwy bethau fel dosbarthu bwyd/arian parod/talebau bwyd. Bydd yr ymgyrch yn galw am gyfiawnder treth. Galwn ar Lywodraeth y DG i ddefnyddio'r Bil Cyllid er mwyn gorfodi trethdalwyr y DG i adrodd ar eu defnydd o gynlluniau osgoi trethi mewn gwledydd tlawd. Rhaid i'r DG helpu gwledydd tlawd i gael gafael ar yr arian sy'n ddyledus iddynt pan fydd y cynlluniau hyn yn dod i'r amlwg.

Galwn ar y Prif Weinidog i ddefnyddio'r llywyddiaeth o'r G8 i lansio Confensiwn Byd Eang newydd ar Dryloywder treth. Byddai gwledydd sy'n arwyddo'r confensiwn yn atal unigolion a chwmnïau rhag cuddio arian, yn disgwyl i hafannau treth rannu gwybodaeth am gyfoeth cuddiedig gyda gwledydd tlawd yn ogystal â helpu gwledydd tlawd i adfer y trethi dyledus ar y cyfoeth cuddiedig hwnnw.

Ymunwch gyda ni - bydd yr ymgyrch yn cael ei lawnsio ddiwedd Ionawr gyda digwyddiad ym Mangor (fe gewch fwy o fanylion maes o law).

SEIAT ICHTHUS

ALWYN ROBERTS

CWESTIWN Y SEIAT GAN MENNA BAINES

Yng Nghyfrifiad 2011, nododd 58 y cant o drigolion Cymru (sef 1.8 miliwn o bobl) eu bod yn Gristnogion. Er bod hyn yn ostyngiad o 14 y cant ers 2001, mae'n ymddangos, felly, fod ymlyniad cryf yn y wlad o hyd wrth y ffydd Gristnogol. Fodd bynnag, mae'n amlwg i bawb nad yw hyn yn gyfystyr ag ymlyniad wrth grefydd gyfundrefnol - dal i gau y mae'r capeli, dal i brinhau a heneiddio y mae'r cynulleidfaoedd yn y rhai hynny sydd ar ôl, ac fe ymddengys mai presenoldeb ar gyrion ein cymdeithas, ar y gorau, yw'r Eglwys Gristnogol. Beth ydym ni i'w wneud o'r ddeuoliaeth yma? A yw parodrwydd cynifer o drigolion Cymru i'w disgrifio eu hunain fel Cristnogion yn achos llawenhenau, yn garreg sylfaen dda i geisio adeiladu arni? Neu ai gofidio ddylem ni ei wneud, am fod ein cymunedau Cristnogol swyddogol yn amlwg wedi methu yn eu hymdrech i argyhoeddi credinwyr fod gwerth i gyd-addoli?

Mae'n amlwg bod gan ddilynwyr y Seiat ddiddordeb mewn ystadegau - tlodi a chymorth rhyngwladol y tro diwethaf a chrefydd yng Nghymru y tro hwn! Cyn troi at y cwestiwn sy'n holi sut i ymateb fe garwn yn gyntaf ofyn sut i ddehongli? Beth a olygai'r 58% wrth ddiffinio eu hunain fel Cristnogion? Yn amlwg does dim modd ateb yn bendant ond gellir cynnig rhai posibiliadau.

Gall olygu dim mwy na mynegiant o "ymlyniad llwythol". "Rwy'n byw mewn 'gwlad Gristnogol' ac, yn niffyg dim arall, rwy'n galw fy hun yn Gristion." Yn y pegwn eithaf arall fe all olygu "yr wyf yn derbyn ac yn coleddu'r Ffydd Gristnogol, yn ei harddel yn fy mywyd ac yn ei mynegi mewn aelodaeth ffyddlon a gweithredol o eglwys neu fudiad o gyd-gredinwyr". Ond rwy'n tybio bod y mwyafrif o'r rhai a ddywedodd eu bod yn Gristnogion yn sefyll rhywle rhwng y ddau begwn.

Sut i ymateb? Yn gyntaf, yn wylaidd: "Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno", nid i ni y mae penderfynu gwerth cred na gweithredoedd neb arall. Yn ail, yn ddiolchgar; "oherwydd ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch ….". Ple bynnag y gwelwn y pethau hyn yno y mae yr Ysbryd.

Ac fe'i gwelwn, nid yn unig ymhlith y 58%, ond ymhlith y di-gred ac ymhlith dilynwyr credoau eraill hefyd.

I ddod yn fwy uniongyrchol at y cwestiwn – yn sicr fe ddylem lawenhau nid yn gymaint am fod hyn yn rhoi sylfaen i adeiladu cenhadaeth arni ond am bod 58% wedi ymateb yn y modd hwn. A yw yn feirniadaeth ar ddiffyg apêl crefydd gyfundrefnol? Ydi, mae'n anodd osgoi'r canlyniad hwnnw. Ond rwy'n dychwelyd at wyleidd-dra a diolchgarwch – bod Duw yn fwy eang na'n dirnadaeth ni ohono ac yn fwy cynhwysfawr na'n diffiniadau ni ohonom ein hunain!

Y GORNEL WEDDI

MANON A SIAN

Dywedais wrth y gŵr oedd yn sefyll wrth borth y flwyddyn ***"Rho imi oleuni fel y gallaf droedio'n ddiogel i'r anwybod ". Ac meddai, "Dos allan i'r tywyllwch a rho dy law yn llaw Duw. Bydd hynny'n well na goleuni ac yn ddiogelach na ffordd gyfarwydd".***
(Geiriau M Louise Haskins a ddyfynnwyd gan y brenin Siôr y VI yn ei ddarlleniad Nadolig yn 1939.)

Ein Tad,
Cymerwn y cyfle hwn ar ddechrau blwyddyn newydd i edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu. Diolchwn am y digwyddiadau a anfonwyd atom i'n profi. Er nad oedd y pwrpas yn glir diolchwn am y gwersi a ddysgwyd gennym yn eu sgil, a diolchwn am y cryfder i'w goresgyn.
Ond ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn rydym hefyd yn edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod, ac fe wnawn hynny yn llawn gobaith a ffydd. Gobeithiwn am flwyddyn llawn hapusrwydd, iechyd a dechrau newydd. Gobeithiwn am y nerth i osgoi unrhyw demtasiwn a gobeithiwn am gryfder newydd i ymateb i dy orchmynion a dilyn y bywyd Cristnogol fel yr hoffet Ti i ni wneud.
Edrychwn ymlaen i gerdded llwybr 2013 gyda'n teulu newydd a phob amser gyda Thi.

Aros gyda ni yn awr ac am byth.
Amen

TRYDAR MEWN TRAWIADAU

ICHTHUS YN HOLI LLION JONES

Llyfr bychan a lanwodd ambell dwll mewn ambell hosan ym Mangor a'r cyffiniau dros y 'Dolig oedd *Trydar mewn Trawiadau* gan Llion Jones. Bu *Ichthus* yn holi perfedd yr awdur.

Nid pawb sy'n gwirioni'r un fath. Ga' i ofyn i chi felly ddechrau trwy egluro yn iaith y lleygwr beth yn union ydy Twitter.

Llwyfan ar gyfer anfon negeseuon cryno (hyd at 140 nod cyfrifiadurol) ydy *Twitter*. Bydd unrhyw un sy'n eich 'dilyn' yn derbyn y negeseuon hynny i'w cyfrifon Twitter. Yn y bôn, mae'n ddigon tebyg i anfon neges destun at griw o bobol yr un pryd. Yr hyn sy'n hwylus am *Twitter* yw bod modd ei ddefnyddio ar ddyfeisiau symudol yn ogystal ag ar y cyfrifiadur.

Beth fyddech chi'n ei ddweud ydy diben y cyfrwng?

Mae hynny'n dibynnu'n llwyr ar y trydarwr ei hun. Mae 'na bobol yn ei ddefnyddio fel dull o rannu newyddion, eraill yn ei ddefnyddio fel modd o fwrw barn ar y byd a'i bethau. Yr unig ffrwyn mewn gwirionedd ydy'r 140 nod a hyd a lled y dychymyg. Mae 'na drydarwyr sy'n adolygu llyfrau a ffilmiau, eraill yn cofnodi rysetiau a Gareth Roberts (Prifathro'r Coleg Normal gynt) yn gosod posau mathemategol. Efallai y bydd darllenwyr *Ichthus* am ddarllen trydar @ biblesummary. Mae'r cyfrif hwnnw yn y broses o drydar y Beibl cyfan, gyda phob pennod unigol yn cael ei chrynhoi i 140 nod.

Rydach chi wedi dewis trydar mewn cynghanedd? Ydy hynny'n gaethiwed mawr?

Dwi'n byw a bod yn y bôn i raffu tweets trwy'r iPhone a hynny ar gynghanedd, rhoi hen ddweud ar newydd wedd.

Ai cyfrol o gerddi ydy hon neu gyfrol o drydar? At bwy y mae hi wedi'i hanelu?

Mae hi'n gyfrol o drydar yn sicr, ond efallai nad ydy hi'n gyfrol o gerddi yn yr ystyr gonfensiynol. Yn sicr, dydw i ddim yn meddwl amdani fel cyfrol o farddoniaeth. Cyfrol o drydar cynganeddol efallai? O ran ei chynulleidfa, fe fyddai'n beth braf pe bai pobol nad ydyn nhw'n arfer â darllen barddoniaeth yn ystyried ei phrynu. Fe fyddai'n braf meddwl hefyd y byddai modd i'r llyfr berswadio rhai sydd o bosib yn prynu llyfrau barddoniaeth i feithrin diddordeb yn y cyfryngau newydd ac i ystyried creu cynnwys newydd yn y Gymraeg ar eu cyfer.

Doedd yna ddim copïau o'r llyfr ar ôl yn Palas Pendref nac Awen Menai cyn y 'Dolig? Ydy hi'n bosib i ddarllenwyr *Ichthus* gael gafael ar gopi?
Rwy'n deall fod yna stoc newydd ar ei ffordd i'r naill siop a'r llall, ond mae gen i gopi neu ddau yn fy mhocedi bob amser!

"DRWY'R BAW AR WYDRAU BYWYD, DU A GWYN SY'N LLWYD I GYD".

Trydar mewn Trawiadau,
Cyhoeddiadau Barddas £4.95

THE CHAPELS OF WALES

DEINIOL JONES

Disgynnodd y llyfr yma trwy'r blwch llythyrau yn ddiweddar, a glaniodd â chlep! Roedd hynny'n arwydd mai llyfr oedd hwn yn llawn o glawr i glawr o fanylion hanesyddol, ystadegau a lluniau o nifer fawr o gapeli Cymru, yn ogystal â chapeli Cymraeg Lerpwl, Llundain, Los Angeles, Melbourne, Patagonia, India a mannau eraill, gan gynnwys Berea Newydd!

Mae D. Huw Owen wedi rhoi trefn ar hanes unigol pob capel, sydd nid yn unig yn rhoi pob un un ei gyd-destun hanesyddol, ond hefyd yn dadorchuddio sawl ffaith diddorol sy'n unigryw i rai o'r capeli.
Rhai o'r rhain yw:
- fod *Berea, Criccieth*, wedi perthyn i dri enwad ers ei sefydlu yn 1886.
- yr adeiladwyd stabl gyferbyn â *Cae Bach, Llandrindod* ar gyfer ceffyl y Gweinidog neu'r Pregethwr teithiol.
- fod yr Eglwys Uniongred Roegaidd yn cynnal gwasanaeth bob bore Sul yn festri *Soar, Llambed.*
- mai *Beulah, Margam,* yw'r unig gapel wyth ochr i oroesi yng Nghymru.



Mae'r llyfr hwn yn gofnod hanesyddol a chymdeithasol o bwys, a hefyd yn crisialu pob capel fel y mae heddiw. Prynwch o, a gobeithio fod rhywun yn gweithio ar gyfieithiad i'r Gymraeg!

Clawr papur 316 tudalen. ISBN 978-1-854115-54-6.
Cyhoeddwyd Tachwedd 2012. Cyhoeddwr: Seren £14.99

SALM AC EMYN

IONAWR 13	
Salm 23 Dewi Walker Jones	148 Catrin Lois Edwards
IONAWR 20	
Salm 8 Gwion Siôn	373 Eleri Roberts
IONAWR 27	
Salm 1 Iolo Evans Jones	681 Meilyr Lynch
CHWEFROR 3	
Salm 150 Owain Jones	147 Rhys Owen
CHWEFROR 17	
Salm 67 Lois Medi William	145 Mia Roberts
CHWEFROR 24	
Salm 93 Guto Llŷr Davies	157 Ifan Siôn
MAWRTH 3	
Salm 46 Siwan Huw Williams	57 Owain Edwards
MAWRTH 10	
Salm 146 Tomos Lynch	411 Rhys Roberts
MAWRTH 17	
Salm 121 Carwyn Siôn	274 Llio Eurgain
EBRILL 14	
Salm 138 Efa Huw Williams	58 Alys McCann
EBRILL 21	
Salm 134 Ela Vaughan Roberts	52 Gwen Roberts

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

Y DIGWYDDIADUR

IONAWR

17eg Seiat : Gwerth Cytûn - Dr. Sarah Jackson
BETH Y MAE DUW YN EI GEISIO GENNYM?
WYTHNOS O WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL - CYTÛN

Nos Lun 21ain 7.30 Penrallt
Mawrth 22ain 2.30 Tŷ Cwrdd y Crynwyr
Nos Fercher 23ain 7.30 Capel Pendref
Nos Iau 24ain 7.30 Capel Penuel
Nos Wener 7.30 Ein Harglwyddes a Sant Iago (trefnir gan y Pabyddion a'r Presbyteriaid, h.y. Berea Newydd!)

25ain 11.00 Wrth y Gadeirlan - dewch draw i lawnsio ymgyrch ddiweddaraf Cymorth Cristnogol - cyhoeddir union fanylion yn y wasg cyn hynny

29ain Seiat: EWCH YN EI ENW EF -Ymweld â'r rhai sy'n ddifrifol wael Manon Ogwen Williams.

CHWEFROR

6ed 2.00 Cylch y Chwiorydd - sgwrs gan Mrs Brenda Wyn Jones "Ifaciwîs"

6ed Berea Newydd - Cyfarfod Cyffredinol Cytun - anerchir gan y Parch Bob Fyffe, Ysgirfennyd Cyffredinol yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

7fed Seiat: Pen-blwydd Berea Newydd yn 10 oed - Y Gweinidog

14eg Y Gymdeithas : Teithio tu ôl i'r gân : Arwel, Hogia'r Wyddfa

21ain Seiat: Cynhadledd CWM yr Iseldiroedd : Llinos H Morris, Noddfa

28ain Seiat: EWCH YN EI ENW EF Gofalu am y profedigaethus Dr Elin Walker Jones

MAWRTH

6ed 7.00 Cylch y Chwiorydd - noson gyda Blodwen Jones, Menna Baines ac Eirlys Jones

7fed Seiat: "DAL I GREDU" - R Maldwyn Thomas.

14eg Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas gyda Helen a Lisa.

21ain Seiat : EWCH YN EI ENW EF : Modelau o ofal bugeiliol Y Parch R Cledwyn Williams

29ain 10.00 Bore'r Groglith - Gwasanaeth o fyfyrdod Yna am 11 - Gorymdaith Cytûn yn cychwyn o St John's

31ain Bore Sul y Pasg - cofiwch am wasanaeth Cytûn am 7 o'r gloch ar ben y gwersyll Rhufeinig.

Uchod: Manon Ogwen Williams, Gwyn Lloyd Jones a Gwawr Jones a roddodd noson wych yn y Gymdeithas yn sôn am, *"Mi welais i"*

Isod: Y plant yn nrama'r Nadolig.